CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

COMMONWEALTH PARLIAMENTARY ASSOCIATION
National Assembly for Wales

# Adroddiad Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (Cangen Cymru)

# Ymweliad Mewnol Pwyllgor HIV/AIDS Senedd Lesotho
# 8-15 Mawrth 2008



## Adroddiad o Ymweliad Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (Cangen Cymru) â Lesotho, 29 Medi – 6 Hydref

Ymwelodd dirprwyaeth o ddau aelod a swyddog o Bwyllgor Senedd Lesotho ar HIV/AIDS ar wahoddiad Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad rhwng 8-17 Mawrth 2008. Dechreuwyd yr ymweliad ar awgrym Dyfan Jones, Ymgynghorydd Rhaglen Ddatblygu y Cenhedloedd Unedig i'r Pwyllgor, yr oedd y Gangen wedi cydweithio â hi yn flaenorol ar gysylltiadau gyda Senedd Lesotho.



Y Seneddwyr Anrhydeddus Mr Lerotholi Denis Seeiso a Ms Mofumahali 'Mantoetse L. Peete, Aelod o'r Pwyllgor HIV/AIDS .

Treuliodd y ddirprwyaeth wythnos waith yn y Cynulliad. Cydlynwyd cynnwys y rhaglen rhwng Peter Kellam o Ysgrifenyddiaeth y Gangen a John Grimes o Wasanaeth Pwyllgorau y Cynulliad. Canolbwyntiodd y rhaglen ar wahanol agweddau ar waith y pwyllgorau, gan adeiladu ar y profiad a enillwyd o seminar hyfforddi ar yr un pwnc a gyflwynwyd i Aelodau Seneddol a staff yn Lesotho ym mis Medi 2007.

Yr oedd Aelodau Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad a gynigiodd eu cymorth i'r rhaglen yn cynnwys Janet Ryder, Jeff Cuthbert, Michael German, David Melding a Lesley Griffiths.



'Plant o Ysgol Pencae yn perfformio cân actol o Lesotho'

Mae Cangen Cymru yn cydnabod y sawl a gyfranodd at y rhaglen o du allan i'r Cynulliad:

- John Griffiths AC, Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru am gyfarfod â'r ddirprwyaeth;

- Dr Tony Jewell Prif Swyddog Meddygol a Dr Jane Ludlow Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cynulliad Cymru am eu heglurhad o'r polisi HIV/AIDS yng Nghymru a'r potensial am gynnal cysylltiadau iechyd rhwng Lesotho a Chymru o fewn cyd-destun fframwaith Cymru o Blaid Affrica;

- Dr Carl Clowes, Is-Gennad Anrhydeddus i Lesotho a Llywydd Dolen Cymru;

- Cathrin Daniel, Sarah Jones, Wayne Crocker a staff Dolen Cymru am y lletygarwch a gynigiwyd dros y penwythnos agoriadol ac yn ystod y rhaglen;

- Yr Athro Hugh Pennington, Cadeirydd Ymchwiliad Cyhoeddus E.Coli De Cymru am ei gyfraniad at y modd y caiff ymchwiliadau cyhoeddus eu cynnal;

- James Verity a David Metcalfe o Swyddfa Archwilio Cymru a roddodd oleuni pellach ar waith Swyddfa'r Archwilydd a'r Pwyllgor Archwilio;

- Toby Mason a staff swyddfa BBC y Cynulliad am eu taith dywysedig a'u heglurhad o waith y BBC yn y Cynulliad;

- Theatr Fforwm Cymru a gyflwynodd berfformiad theatr fforwm ar ddiwedd gweithdy wythnos o hyd yn y Cynulliad yn gweithio gyda phobl ifanc ac yn archwilio agweddau at HIV/AIDS;

- Dr Alex a Mrs Mary Kellam am eu lletygarwch i'r ddirprwyaeth dros y penwythnos olaf.

Mae copi o'r rhaglen derfynol wedi ei gynnwys gyda'r adroddiad hwn er gwybodaeth.

Talwyd y costau teithio a llety gan Lesotho. Cynorthwyodd Cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad gyda'r costau lletygarwch a chludiant lleol a oedd yn gysylltiedig gyda'r rhaglen.



Michael German AC, Toby Mason o Dîm Newyddion BBC Wales yn y Cynulliad a John Grimes gyda'r ddirprwyaeth o Lesotho yn Stiwdio'r BBC yn Nhŷ Hywel.

**Adolygiad**

Cynhaliwyd sesiwn ddibriffio gyda'r ddirprwyaeth ar ddiwrnod gwaith olaf y rhaglen. Yr argraff gychwynnol oedd y bu'r rhaglen yn llawn gwybodaeth a buddiol. Roedd y materion sylweddol a gododd yn cynnwys:

- Y posibilrwydd o gyd-rannu gwybodaeth ar ddiwrnod gwaith agoriadol rhaglenni yn y dyfodol—gallai'r nall ochr roi trosolwg a darparu'r newyddion diweddaraf o'u priod seneddau.

- Yr oedd y sesiynau gyda'r BBC a'r Athro Pennington a drefnwyd ar fyr rybudd pan oedd bwlch yn y rhaglen yn hynod fuddiol. Gallai dirprwyaethau eraill i'r Cynulliad elwa o sesiwn debyg gyda'r BBC.

- Pe bai'r Pwyllgor HIV/AIDS yn anfon Aelodau i ymweld â Chymru eto, efallai y gellid newid pwyslais unrhyw raglen o'r fath i gwmpasu agweddau ar gyflwyno gwasanaethau HIV/AIDS yng Nghymru yn ymarferol.

**Ysgrifenyddiaeth**
**Cangen Cymru Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad**



Gwylio anerchiad gan Jaqueline Wilson, Cyfarwyddwr Llywodraethu Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad ar Ddydd y Gymanwlad.

**Rhaglen**

**Pwyllgor HIV/AIDS Senedd Lesotho**

**Atodiad Hyfforddi**

**8-17 Mawrth 2008**

**Dirprwyaeth:**

Yr Anrhydeddus Ms Mofumahali 'Mantoetse L. Peete AS – Aelod o Bwyllgor Dethol HIV & AIDS y Senedd
Yr Anrhydeddus Mr Lerotholi Denis Seeiso AS – Aelod o Bwyllgor Dethol HIV & AIDS y Senedd
Ntsitsa Thamae – Clerc y Pwyllgor Dethol HIV & AIDS y Senedd

**Cydlynwyr y Rhaglen:**

Peter Kellam
Ysgrifenyddiaeth Cangen Cymdeirhas Seneddol y Gymanwlad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Peter.Kellam@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: +44 (0)29 2089 8642 / 07813 576929

John Grimes
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
John.Grimes@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: +44 (0)290 2089 8225

Dyfan Jones
Arbenigwr Cymorth Seneddol HIV & AIDS
Ymgynghorydd Rhaglen Ddatblygu y Cenhedloedd Unedig, Lesotho
dyfjones@yahoo.com

**Sadwrn 8 Mawrth**

| | |
|---|---|
| 1600 | Dirprwyaeth yn cyrraedd Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd ar Ehediad KL1063 o Amsterdam.<br><br>Cwrdd yn y gwesty gan Peter Kellam, Pennaeth Tîm Ewropeaidd a Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br><br>Arwyddo llyfr y Gwesty:<br><br>St Hilary Lodge<br>150 Heol y Gadeirlan<br>Caerdydd, CF11 9JB<br><br>Ffôn:  +44 (0)29 2034 0303 |

**Sul 9 Mawrth**

| | |
|---|---|
| 1400 | Casglu o'r gwesty gan Sarah Jones, Cydlynydd Datblygu ar gyfer Dolen Cymru.  Gyrru drwy Gwm Cynon i Fannau Brycheiniog, coffi wedyn yn Aberhonddu. |
| Gyda'r nos | Rhydd |

**Llun 10 Mawrth**

| | |
|---|---|
| 0930 | Cwrdd yn nerbynfa'r Senedd gan Peter Kellam, Cangen Cymru Ysgrifenyddiaeth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.<br><br>Coffi yn y Senedd gyda Peter Kellam a John Grimes.  Cyflwyniadau a threfniadau cadw ty sylfaenol.  Oriel.<br><br>Cyflwyniad i Gymru a'r Cynulliad: briffio cefndir cyffredinol gan Peter Kellam wedyn taith dywysedig o'r Senedd.  Cwrt Ystafell 5. |
| 1245-1345 | Cyflwyniad i'r Cynulliad yn parhau dros ginio brechdanau gwaith a lywyddir gan Claire Clancy Prif Weithredwr a Chlerc i'r Cynulliad. Ymunir gan<br><br>Dianne Bevan, Prif Swyddog Gweithredu<br>Mair Parry Jones a Iolo Roberts, Cyfieithu a Chofnodi Seneddol<br>Sian Wilkins, Anna Daniel a Kath McDonald, Gwasanaethau Deddfwriaeth a Siambr<br>John Grimes, Gwasanaeth Pwyllgorau. Ystafell yr Harbwrfeistr, Glanfa. |
| 1400 - 1630 | Cyflwyniad i'r Pwyllgorau gan John Grimes a Michael German OBE AC. Nodau ac Amcanion Pwyllgorau. Cyflwyniad a thrafodaeth. Cwrt Ystafell 5. |
| 1900 | Cwrdd yn y gwesty gan John Grimes. |
| 1930 | Swper anffurfiol a drefnir gan Gangen Cymru Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Yn bresennol:<br>Janet Ryder AC, Cadeirydd y Gangen<br>Jeff Cuthbert AC, Aelod o Bwyllgor Gwaith y Gangen<br>John Grimes, Ysgrifenyddiaeth y Gangen. |

**Mawrth 11 Mawrth**

| | |
|---|---|
| 0915 | Cwrdd yn nerbynfa Tŷ Hywel gan John Grimes. |
| 0930-1200 | Agweddau Ymarferol ar Bwyllgorau. Cyflwyniad a thrafodaeth am faterion gweithdrefnol gyda John Grimes a Mike German AC. Cwrt Ystafell 5. |
| 1215–1330 | Ymuno â dathliadau Dydd y Gymanwlad yn y Senedd. Gwahoddwyd Aelodau'r Cynuliad i ymuno â chinio bwffe yn yr Oriel gyda grwpiau ysgol ledled Cymru yn arddangos ar y thema 'Yr Amgylchedd—Ein Dyfodol' Oriel. |
| 1300 | Cyfarfod gyda Dr. Carl Clowes, Is-gennad Anrhydeddus Lesotho a Llywydd Dolen Cymru. |
| | Cyfle posibl i gyfweld â Lobi Gwasg y Cynulliad. |
| 1400 | Arsylwi cyfarfod y Cynulliad: Cwestiynau i'r Prif Weinidog. John Grimes i dywys. Oriel y cyhoedd. |
| 1500-1615 | Paratoi ar gyfer y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol. Briffio a thrafodaeth gyda Steve George, Clerc y Pwyllgor. Ymunir (os bydd busnes y Cyfarfod Llawn yn caniatau) gan Jonathan Morgan AC, Cadeirydd y Pwyllgor. Ystafell Gyfarfod B, 4ydd Llawr Tŷ Hywel. |
| 1630 | Arsylwi Dadl Dydd y Gymanwlad o Oriel y Cyhoedd. Oriel y Cyhoedd. |
| 1745 | Derbynfa Dydd y Gymanwlad. Cynhelir hwn yn syth ar ôl y Cyfarfod Llawn. Cwrt. |

**Mercher 12 Mawrth**

| | |
|---|---|
| 1030-1130 | Ymweliad â swît y BBC, Ty Hywel 4ydd Llawr |
| 1230 -1300 | Cyfarfod gyda John Griffiths AC, Dirprwy Weinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Ystafell Giniawa 2, Ty Hywel |
| 1300 | Cyfarfod gyda Dr Tony Jewell, Prif Swyddog Meddygol a Dr Jane Ludlow, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Adran Iechyd Cyhoedd a Phroffesiynau, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ystafell Giniawa 2, Tŷ Hywel. |
| 1400 | Arsylwi Cyfarfod Llawn / cyfle i ddibriffio o fewn y grwp. Oriel y Cyhoedd. |

**Iau 13 Mawrth**

| | |
|---|---|
| 0930-1100 | Paratoi ar gyfer cysgodi cyfarfod y Pwyllgor Archwilio. I gynnwys trafodaethau gyda: |

| | |
|---|---|
| | Yr Athro Hugh Pennington, Ymchwiliad E.Coli<br>David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor (1100 o'r gloch)<br>James Verity a David Metcalfe, Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | Ystafell Gyfarfod B, 4ydd Llawr Ty Hywel. |
| 1230-1330 | Cinio a drefnir gan Gangen Cymru Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.<br>Ystafell De yr Aelodau. |
| | Lesley Griffiths AC |
| 1330-1630 | Cysgodi cyfarfod y Pwyllgor Archwilio. |
| | Cyflwyniad ar yr Ymchwiliad E.Coli. |
| Gyda'r nos | Trefniadau eu hunain. |
| **Gwener 14 Mawrth** | |
| Bore | Arsylwi perfformiad gan Theatr Fforwm Cymru yn y Neuadd. |
| Amser cinio | Dibriffio gyda John Grimes a Peter Kellam. Cwrt Ystafell 5. |
| Prynhawn | Gadael. |
| Gyda'r nos | Swper a gynhelir gan Dr Alex a Mrs Mary Kellam. Llandâf. |
| **Sadwrn 15 Mawrth** | Diwrnod Rhydd (Gêm rygbi Cymru yn erbyn Ffrainc). |
| **Sul 16 Mawrth** | |
| Bore | Mynychu Cymun 1045, Cadeirlan Llandâf. |
| | Ymweld ag Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. |
| **Llun 17 Mawrth** | Gadael am Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd am 3.30am. |